

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Canllawiau profion llif unffordd ar gyfer disgyblion

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 10 i 13 gael prawf ddwywaith yr wythnos gan ddefnyddio prawf dyfais llif unffordd.
- 1.2 Er bod y profion hyn yn wirfoddol, anogir yn gryf i'r holl ddisgyblion y cynigir y cyfle iddynt fanteisio ar y cynnig i barhau i leihau'r perygl o drosglwyddo COVID-19.
- 1.3 Mae'r prawf yn ffordd gyflym a syml o brofi unigolion **nad oes** ganddynt symptomau COVID-19, ond a allai fod yn lledaenu'r feirws.
- 1.4 I gael rhagor o wybodaeth, mae dogfen cwestiynau cyffredin wedi'i chynnwys isod:



FAQs - Routine
Testing for Education



FAQs - Routine
Testing in Education a

2. Y disgyblion a gaiff eu cynnwys

- 2.1 Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 10 i 13 yn cael cynnig y cyfle i gael prawf ddwywaith yr wythnos.
- 2.2 Os nad ydych yn dymuno cymryd rhan yn y profion, gallwch barhau i fynychu eich ysgol neu leoliad ar yr amod nad ydych wedi dod i gysylltiad ag achos cadarnhaol, wedi datblygu symptomau nac wedi derbyn canlyniad prawf COVID-19 cadarnhaol y gallech fod wedi'i gael yn annibynnol.
- 2.3 Dilynwch y canllawiau cenedlaethol arferol ar hunanynysu bob amser a threfnwch brawf os ydych yn dangos symptomau COVID-19.

3. Cyflenwadau o brofion

- 3.1 Cyn cael eich pecynnau profi, mae angen i chi ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd, cyfarwyddiadau profi, fideo a chyfarwyddiadau gwastraff.
- 3.2 Bydd profion yn cael eu darparu i chi o'ch ysgol.
- 3.3 Pan fo gennych wythnos o gyflenwad (2 brawf) yn unig ar ôl, dylech ofyn am ragor gan eich ysgol.
- 3.4 Bydd eich ysgol yn cofnodi nifer y profion y mae'n eu darparu i chi er mwyn sicrhau bod profion yn cael eu cwblhau fel y cytunwyd.

- 3.5 Mae'n bwysig **nad** yw'r profion a ddarperir i chi yn cael eu defnyddio gan unrhyw aelodau o'ch teulu na ffrindiau a dim ond chi sy'n eu defnyddio.
- 3.6 Dylid storio pecynnau prawf dan do ar dymheredd ystafell mewn man sych.

4. Cynnal profion

- 4.1 Peidiwch â defnyddio prawf llif unffordd os oes gennych symptomau COVID-19. Yn y sefyllfa hon, mae'n rhaid i chi gael prawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR) mwy cywir.
- 4.2 Mae'r pecyn prawf llif unffordd yn ddyfais â llaw gyda phad amsugol ar un pen a ffenestr ddarllen ar y pen arall. Y tu mewn i'r ddyfais mae sribed o bapur prawf sy'n newid lliw. Darperir cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r prawf llif unffordd gyda'r pecyn prawf.
- 4.3 Nid oes angen hyfforddiant penodol i gynnal y profion a darperir canllawiau llawn ym mhob blwch o becynnau prawf. Yn ogystal, mae gwybodaeth am y profion, a sut i'w cynnal ar gael yn nogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru isod:

<https://llyw.cymru/profion-asymptomatig-ileoliadau-addysg-gofal-plant-html>

Yn ogystal, darperir canllawiau yn eich pecynnau prawf ac fe'u hamlinellir isod:




LFT Self-Test -
COVID-19-self-test-in



LFT Self-Test -
COVID-19-self-test-in

- 4.4 Cyn cynnal eich prawf cyntaf, mae'n rhaid i chi ddarllen yn llawn y cyfarwyddiadau yn y blwch.
- 4.5 Peidiwch â bwyta nac yfed am o leiaf 30 munud cyn gwneud y prawf.
- 4.6 Mae tri chanlyniad posibl o brawf llif unffordd fel a ganlyn:



Canlyniad negyddol: mae un llinell wrth ymyl C yn dangos bod y prawf yn negyddol.

Gallwch barhau i fynychu'r ysgol fel arfer ond cadwch at yr holl reolaethau sylfaenol yn yr ysgol neu'r lleoliad, e.e. cadw pellter cymdeithasol, mesurau anadlol a hylendid dwylo da ac ati.

Canlyniad cadarnhaol: mae dwy linell, un wrth ymyl C ac un wrth ymyl T, (hyd yn oed llinellau gwan), yn dangos bod y prawf yn gadarnhaol.

Os cewch prawf llif unffordd cadarnhaol, mae'n rhaid i chi ynysu yn unol â chanllawiau cenedlaethol a threfnu prawf PCR i gadarnhau ar unwaith. **Mae'n bwysig bod y prawf PCR yn cael ei gynnal o fewn 24 awr i'r prawf llif unffordd cadarnhaol.**

Annilyys: os nad oes unrhyw linellau, neu un llinell wrth ymyl T, mae'r prawf yn annilyys. Bydd angen i chi ei ail-wneud gyda phhecyn prawf newydd.

- 4.7 Dylech gynnal prawf cyn mynd i'r ysgol ar foreau Llun ac Iau. Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi penderfynu ar hyn.
- 4.8 Dylech ddefnyddio'r un diwrnodau ac amseroedd bob wythnos. Os ydych i ffwrdd o'r ysgol/lleoliad am unrhyw gyfnod sylweddol o amser (mwy nag wythnos) dylech roi'r gorau i brofi ac ailddechrau eto ar fore eich diwrnod cyntaf yn ôl cyn i chi fynd i'ch ysgol neu leoliad.
- 4.9 Os oes gennych symptomau COVID-19 ar unrhyw adeg, **ni ddylech** ddefnyddio prawf llif unffordd i wirio a oes gennych COVID-19. Mae'n rhaid i chi hunanyysu a threfnu prawf PCR ar unwaith.

Gellir trefnu profion ar-lein yn: [Trefnu prawf ar-lein \(ar GOV.UK\)](#)

I drefnu prawf dros y ffôn ffoniwch: **119** rhwng 7am ac 11pm

- 4.10 Os ydych wedi cael prawf PCR cadarnhaol yn ystod y 90 diwrnod diwethaf, ni ddylech ddefnyddio prawf llif unffordd nes bod 90 diwrnod wedi mynd heibio gan na fydd y canlyniadau'n gywir. Sicrhewch fod eich ysgol neu leoliad yn ymwybodol o'r senario hwn.
- 4.11 Mae'n **rhaid** i chi roi gwybod am ganlyniadau eich profion yn genedlaethol trwy ddefnyddio'r porth ar-lein canlynol.

www.gov.uk/report-covid19-result

neu ffoniwch

â'ch canlyniadau os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwrwd.

- 4.12 Mae'n rhaid rhoi gwybod am ganlyniadau cadarnhaol, negyddol ac annilys ar y porth ar-lein.
- 4.13 Mae'n rhaid i chi hefyd ddweud wrth eich ysgol am ganlyniad prawf **cadarnhaol** cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y canlyniad.
- 4.14 Os yw eich canlyniadau'n gadarnhaol, **NI** ddylech fynychu eich ysgol na'ch lleoliad am unrhyw reswm, ond ffoniwch gyswllt eich ysgol i'w hysbysu am eich canlyniad prawf cadarnhaol. Yn y cyfamser, mae'n rhaid i chi ddilyn y [canllawiau hunanynysu](#) a hunanynysu am 10 diwrnod, a bydd yn rhaid i bob aelod o'ch cartref wneud hynny hefyd. Dylai hyn ddechrau ar unwaith ar ôl canlyniad cadarnhaol y prawf llif unffordd.
- 4.15 Mae'n rhaid i chi hefyd drefnu prawf PCR ar unwaith. **Dylid cynnal y prawf hwn o fewn 24 awr i'r prawf llif unffordd**. Gallwch drefnu prawf [ar-lein](#) neu drwy ffonio 119.
- 4.16 Mae'n rhaid i chi ynysu ar unwaith ynghyd â holl aelodau eich cartref.
- 4.17 Os yw canlyniad eich prawf yn negyddol, gallwch fynychu eich ysgol neu leoliad fel arfer.
- 4.18 Beth bynnag fo canlyniad y prawf, pan fydd eich prawf wedi'i gwblhau, rhowch holl gynnwys y pecyn prawf a ddefnyddiwyd yn y bag gwastraff a ddarperir. Seliwch y bag a chadwch hwn mewn man diogel am 72 awr. Ar ôl yr amser hwn, rhowch y bag yn eich gwastraff cartref cyffredinol.
- 4.19 Os bydd canlyniadau eich prawf PCR cadarnhau yn negyddol, mae'n rhaid i chi gysylltu â'ch ysgol a pharhau i hunanynysu. Bydd eich ysgol yn trosglwyddo'ch canlyniadau i'r tîm olrhain cysylltiadau a fydd yn penderfynu a ydych chi a'ch cysylltiadau agos yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol. **PEIDIWCH â dychwelyd i'r ysgol nes y dywedir wrthyh y cewch wneud hynny**.
- 4.20 Os na fyddwch yn mynd am brawf PCR dilynol, bydd gofyn i chi a'ch holl gysylltiadau agos hunanynysu am 10 diwrnod. **NI** ddylech gynnal rhagor o brofion llif unffordd ychwaith am gyfnod o 90 diwrnod. Os bydd symptomau newydd yn datblygu yn ystod y cyfnod hwn, dylech drefnu **prawf PCR**.